| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **18 Gorffennaf 2024** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Y Cynghorydd Elen Heaton / Y Cynghorydd Gill German / Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Ann Lloyd, Pennaeth Gwasanaeth: Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd/Rhiain Morrlle, Pennaeth y Gwasanaethau Plant** |
| **Awduron yr adroddiad** | **Ann Lloyd, Pennaeth Gwasanaeth: Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd/Rhiain Morrlle, Pennaeth y Gwasanaethau Plant** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 - 2024** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu safbwynt ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol a blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn i ddod.

1.2. Mae'r adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2023 - 2024 ynghlwm fel Atodiad 1. Diben yr adroddiad yw rhoi darlun gonest i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I alluogi'r aelodau i graffu ar yr adroddiad blynyddol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych (CSDd).

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried a yw'r adroddiad yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2023 - 2024.

3.2. Bod yr aelodau'n ystyried a yw'r adroddiad yn codi unrhyw faterion / pryderon yn ymwneud â pherfformiad sydd angen craffu arnynt ymhellach.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn ystod 2023 / 2024 mae ein gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'n Gwasanaethau Plant wedi canolbwyntio ar fodloni ein rhwymedigaethau statudol a'r galw a chymhlethdod angen sy'n cynyddu'n gyffredinol. Rydym wedi parhau i adeiladu ar brosiectau a gweithgareddau a oedd ar y gweill yn 2022/2023 a'u gweithredu, ond ychydig o gyfle rydym wedi ei gael i ddatblygu prosiectau neu weithgareddau newydd.

4.2. Yn gyffredinol mae ein perfformiad yn debyg i berfformiad y blynyddoedd blaenorol, er mewn rhai meysydd rydym wedi gweld ychydig o ostyngiad mewn perfformiad. Mae hyn yn bennaf oherwydd y problemau parhaus o ran recriwtio a chadw staff ynghyd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a chymhlethdod anghenion.

4.3. Dros y flwyddyn rydym wedi cael ychydig o lwyddiant yn recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol newydd, yn arbennig ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, er bod heriau sylweddol yn ein hwynebu o hyd o ran y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion a'r Gwasanaethau Plant. Yn anffodus mae'r ddibyniaeth ar ddefnyddio staff asiantaeth i gyflawni ein gofynion statudol yn parhau yn llawer uwch nag y byddem yn ei ddymuno. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y cyllidebau yn y ddau wasanaeth a hefyd yn cyfrannu at ddiffyg sefydlogrwydd ar draws y gwasanaethau.

4.4. Mae'n ddiddorol nodi ein bod wedi gweld ychydig o ostyngiad yn y nifer o asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn y Gwasanaethau Oedolion. Fodd bynnag, rydym yn gwybod fod mwy o'r rhai hynny wedi arwain at yr unigolyn angen cynllun gofal a chymorth a diwallu eu hanghenion drwy wasanaethau statudol. Mae hyn yn bennaf yn arwain at bobl yn defnyddio gwasanaethau pan na all teuluoedd ddarparu'r gofal sydd ei angen mwyach

neu pan fo cymhlethdod yr angen gymaint fel bod angen pecyn gofal a chymorth i fodloni'r angen a aseswyd.

4.5. Tra bod timau ein Gwasanaethau Gweithredol wedi ei chael yn anodd i ganfod gofal cartref i gael pobl allan o'r ysbyty, rydym wedi gweld mwy o gefnogaeth yn cael ei darparu gan Ficro-Ddarparwyr a lle mae angen lefelau is o ofal a chymorth gan wirfoddolwyr.

4.6. Yn y Gwasanaethau Plant rydym wedi gweld canran yr asesiadau sydd wedi eu cwblhau yn gostwng 11% o 2022 / 2023. Mae hyn yn arwydd o'r problemau recriwtio a chadw staff sy'n effeithio'n benodol ar Wasanaethau Plant, lle mae'r galw a chymhlethdod yr angen unwaith eto yn cynyddu.

4.7. Fodd bynnag, wedi dweud hynny rydym wedi gweld gwelliant bach yn y nifer o ddyddiau mae plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r nifer o blant sydd wedi eu tynnu (eu dad-gofrestru) oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

4.8. Mae'r Gwasanaethau Plant eisoes yn gweld canlyniadau cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi derbyn ymyriadau gan y tîm aml-ddisgyblaethol a sefydlwyd cyn cwblhau datblygiad Bwthyn-y-Ddôl. Mae'r dull arloesol hwn o lunio model gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â'r ymarfer myfyriol a fabwysiadwyd gan y tîm, eisoes wedi arwain at bobl ifanc yn cwblhau'r ymyrraeth yn llwyddiannus ac yn aros yn ddiogel gartref gyda'u teulu.

4.9. Wrth i ni symud ymlaen i 2024 / 2025 byddwn yn canolbwyntio ar drawsnewid ein gwasanaethau i'n helpu ni i leihau ein pwysau ariannol tra'n ein galluogi ni i fodloni ein gofynion statudol. Bydd pob maes o fewn ein gwasanaethau yn cael ei adolygu i sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau'n effeithiol ac yn gwneud y mwyaf o bob cyfle i leihau costau tra'n cefnogi'r rhai hynny gyda'r angen mwyaf.

4.10. Canolbwyntir hefyd ar ddatblygu darpariaeth egwyliau byr a seibiant mewn argyfwng o fewn y sir i blant gydag anableddau cymhleth. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau o alluogi i'n dinasyddion barhau yn annibynnol gartref cyhyd â phosibl yn ogystal â chefnogi ein cydweithwyr iechyd i gael mwy o bobl allan o'r ysbyty mewn modd amserol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Yn ystod blwyddyn ariannol 2022 - 2023 cyfrannodd y Gwasanaethau Oedolion a Phlant tuag at themâu canlynol y Cynllun Corfforaethol

- Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sy'n bodloni anghenion pobl
- Sir Ddinbych ffyniannus
- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar
- Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu
- Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid yw datblygu a chyhoeddi'r adroddiad blynyddol yn costio unrhyw beth ac eithrio amser swyddog, ac nid yw'n effeithio ar wasanaethau eraill. Bydd y cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r camau gweithredu a nodir yn yr adroddiad ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd a Gwasanaethau Plant ac Addysg yn cael eu cyflawni drwy gyllidebau craidd, neu drwy gyllid partneriaeth fel y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ond mae pwysau ariannol sylweddol yn parhau o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad blynyddol gan ei fod yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad ac nid yw cyhoeddi'r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, bydd Asesiadau o Effaith ar Les yn cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol neu ddatblygiad gwasanaethau y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad blynyddol hwn, pan fo angen.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynglŷn â'n gwasanaethau yn ffurfio rhan o'n proses sicrwydd ansawdd presennol ac o'r herwydd mae wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad yr adroddiad blynyddol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad blynyddol gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Amlinellir yr heriau a'r pwysau ariannol sydd ar y gwasanaethau a'r Cyngor yn glir yn Adran 5 (b) yr Adroddiad Blynyddol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae cofrestr risg fanwl ar gyfer y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Digartrefedd a'r Gwasanaethau Addysg a Phlant. Gan fod yr adroddiad hwn am y Gwasanaethau
Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, mae unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad hwn (ac unrhyw gamau i'w lliniaru a'u rheoli) yn cael eu nodi yn y cofrestrau risg gwasanaeth priodol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae'r Canllawiau Statudol (gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol) wedi eu cyhoeddi yn y Cod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

11.2. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Craffu mewn perthynas â monitro perfformiad ac amcanion polisi.